

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>4 Gorffennaf 2023</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Tendrau ar gyfer Gwasanaethau Bws Lleol 526, 585 a 588</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>Cymeradwyo'r Tendrau ar gyfer Gwasanaethau Bws Lleol 526, 585 a 588</b>
<b>Er:</b>	<b>Penderfyniad</b>
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Keith Henson – Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, a Rheoli Carbon</b>

Tendrwyd ar gyfer y Gwasanaethau Bws Lleol sy'n cael cymhorthdal gan Gyngor Sir Ceredigion drwy broses dendro agored rhwng mis Ebrill a mis Mai 2023 ar sail 2 flynedd + 1 flwyddyn +1 flwyddyn, ac yn unol â'r meini prawf ar gyfer derbyn tendrau mae'n rhaid i gontractau sydd gwerth dros £1m gael eu cymeradwyo gan y Cabinet.

Mae cyfanswm gwerth y contract ar gyfer tri o'r llwybrau, sef:

- 526
- 585
- 588

dros £1m os bydd y ddau opsiwn i ymestyn am 1 flwyddyn yn cael eu dewis ar gyfer pob contract (cyfanswm o 4 blynedd).

Felly, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo penodi'r cynigwyr llwyddiannus ar gyfer pob llwybr er mwyn caniatáu i'r gwasanaethau barhau i weithredu o 1 Medi 2023 ymlaen.

	<b>A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam</b>	Amherthnasol
	<b><i>Crynodeb:</i></b>	
	<b>Hirdymor:</b>	
	<b>Cydweithio:</b>	
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Cynnwys:</b>	
	<b>Atal:</b>	
	<b>Integreiddio:</b>	
<b>Argymhelliad / Argymhellion:</b>	Dylid cymeradwyo dyfarnu'r contractau i'r cynigwyr llwyddiannus.	

<b>Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	Er mwyn galluogi i'r gwasanaethau barhau i weithredu o 1 Medi 2023 ymlaen.
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Cyfansoddiad y Cyngor – Rheolau Gweithdrefn Contractau
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	Pwysau ychwanegol ar y gyllideb, fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n talu am hyn.
<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>	Dim
<b>Goblygiadau o ran Staff:</b>	Dim
<b>Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:</b>	Dim
<b>Risg / Risgiau:</b>	Bod y cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru'n cael ei dynnu yn ôl.
<b>Pwerau Statudol:</b>	Deddf Trafnidiaeth 1985 a Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006
<b>Papurau Cefndir:</b>	Dim
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad 1- Crynodeb o'r Tendrau a Gymeradwywyd (Eithriedig)
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol / Katy Spain, Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Trafnidiaeth
<b>Dyddiad:</b>	19 Mehefin 2023